intro to Independent Living (W) 14/10/09 12:01 Page 1

‘Mae Byw Annibynnol yn ein galluogi ni fel pobl anabl i gyflawni ein nod ein hunain ac i fyw ein bywydau ein hunain yn y ffordd a ddewiswn ar ein cyfer ni’n hunain’

Cyflwyniad i **Fyw’n Annibynnol**

disability wales
anabledd cymru

Cyflwyniad i **Fyw’n Annibynnol**

Mae **Byw’n Annibynnol** yn syniad sy’n ein helpu i ddeall y rhwystrau a wynebwn fel pobl anabl yn ein bywyd bob dydd. Mae’n rhoi strwythur i ni ar gyfer mynd i’r afael â’r llu o wahanol faterion sy’n ein hatal rhag bod â’r un dewisiadau, cyfleoedd, mynediad a rheolaeth o’n bywydau sydd gan bobl nad ydynt yn anabl. Mae’n dangos yr hyn sydd angen ei wneud i’n galluogi i gael ein gwerthfawrogi a’n trin gyda’r un parch â dinasyddion eraill.

Mae’r **Model Cymdeithasol o Anabledd** yn ein hatgoffa y cawn ein hanablu gan y rhwystrau cymdeithasol, sefydliadol, amgylcheddol ac agweddol sy’n ein rhwystro rhag medru cymryd rhan lawn mewn cymdeithas ar sail gyfartal. Mae Byw’n Annibynnol yn adeiladu ar hyn drwy roi datrysiadau ymarferol ar gyfer dileu rhwystrau anabledd.

Datblygwyd y cysyniad o Fyw’n Annibynnol gan y mudiad pobl anabl dros y deugain mlynedd ddiwethaf ac mae’n seiliedig ar bedwar prif syniad:

- bod pob bywyd dynol o werth cyfartal
- y gall pawb, pa bynnag amhariad sydd ganddynt, wneud dewisiadau gwybodus am eu bywyd
- bod gan bobl anabl yr hawl i reoli pob agwedd o’u bywyd, yn yr un ffordd â phobl heb fod yn anabl
- bod gan bobl anabl hawl i gael eu cynnwys yn llawn fel cyfranogwyr gweithgar mewn cymdeithas ar sail gyfartal i bobl heb fod yn anabl.

Nid yw **Byw’n Annibynnol** yn golygu y dylem ni, fel pobl anabl, orfod byw ar wahân, gwneud popeth drosom ein hunain na bod yn hollol annibynnol o wasanaethau. Mae’n golygu:

- dileu’r rhwystrau sy’n atal rhag cymryd rhan gymdeithasol ac economaidd lawn mewn cymdeithas prif ffrwd
- bod â’r un rhyddid, dewis, urddas, rheolaeth a chyfleoedd ag unrhyw ddinesydd arall – adref, yn y gwaith ac yn y gymuned
- medru byw ein bywydau ein hunain yn y ffordd a ddewiswn drosom ein hunain
- cael ein cynnwys a’n clywed yn llawn ym mhob proses asesu, cynllunio a gwneud penderfyniadau
- bod â rheolaeth o’r adnoddau rydym eu hangen i gyflawni ein llawn botensial
- cael ein gwerthfawrogi a’n parchu am fod yr unigolion unigryw yr ydym.

‘Mae ymgyfraniad a chefnogaeth pobl hanfodol yn hollbwysig wrth alluogi Anabledd Cymru i gyflawni ei nod’

Mae datrysiadau ymarferol megis Taliadau Uniongyrchol a Chefnogaeth wedi’i Gyfeirio at y Dinesydd sy’n helpu i wneud Byw Annibynnol, cydraddoldeb anabledd a chynhwysiant cymdeithasol yn realaeth. Fodd bynnag, mae angen i ni drefnu a gweithio ar gyfer newid gwleidyddol os yw’r nodau hyn i gael eu cyflawni.

Datblygwyd **Canolfannau Byw Annibynnol** gan bobl anabl i ymgyrchu dros welliannau gwasanaeth yn seiliedig ar yr hawl i Fyw’n Annibynnol. Mae’r Canolfannau yn sefydliadau lleol a gaiff eu rhedeg a’u rheoli gan bobl anabl, ac sy’n defnyddio egwyddorion y Model Cymdeithasol o Anabledd.

Mae Canolfannau Byw Annibynnol yn darparu amrediad o wasanaethau sy’n hyrwyddo Byw’n Annibynnol, yn aml yn cynnwys hyfforddiant cydraddoldeb anabledd, cefnogaeth Taliadau Uniongyrchol, cymorth personol, gwybodaeth ac eiriolaeth annibynnol. Gall y Canolfannau hefyd roi cefnogaeth ar gyfer cynrychiolaeth, cyfranogiad ac ymgyfraniad effeithiol mewn datblygu polisi lleol a gwella gwasanaeth.

Mae **Taliadau Uniongyrchol** yn galluogi defnyddwyr gwasanaeth i dderbyn taliad ariannol a threfnu eu cefnogaeth eu hunain yn lle bod yn ddibynnol ar wasanaethau a ddarperir gan yr awdurdod lleol.

Mae **Cefnogaeth a Gyfeirir gan y Dinesydd** yn rhoi rheolaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth dros gyllideb unigol yn dilyn hunanasesiad a gefnogir. Medrir defnyddio cyllid mewn ffyrdd creadigol i gyflawni canlyniadau a gytunwyd, un ai ar ffurf Taliad Uniongyrchol, fel darpariaeth gwasanaeth uniongyrchol, neu fel cyfuniad o’r ddau.

Mae **Anabledd Cymru** yn gweithio ar lefelau cenedlaethol a lleol i:

- sicrhau adnoddau ar gyfer datblygu a chefnogi Canolfannau Byw Annibynnol yng Nghymru
- cynyddu mynediad i Daliadau Uniongyrchol a Chefnogaeth a Gyfeirir gan y Dinesydd ar gyfer pob person anabl
- cael yr hawl Fyw’n Annibynnol wedi ei gynnwys yn y gyfraith.

disability wales
anabledd cymru